


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Invertek Drives

Mae Invertek Drives yn arweinydd byd-eang mewn dylunio a chynhyrchu gyriannau cyflymder newidiol a ddefnyddir i reoli cyflymder moduron trydan cymwysiadau mewn systemau cludo, gwresogi, awyru, pwmpio a systemau eraill.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund

Lansiwyd y cwmni yn 1998 i lenwi bwlch yn y farchnad am yriannau cryno, hawdd eu defnyddio. Erbyn hyn mae gan Invertek drosiant o fwy na £18 miliwn, mae'n masnachu ar draws 80 o wledydd ac yn cyflogi 160 o bobl yng Nghanolbarth Cymru, y Weriniaeth Tsiec, Sbaen, y Dwyrain Pell a Tsieina.

Mae 70% o ynni'r byd yn cael ei ddefnyddio gan foduron trydan. Mae Invertek wedi datblygu dau amrediad craidd gyriannau a all leihau'r ynni a ddefnyddir fwy na 50% trwy gyfateb cyflymder y modur i ofynion y cymhwysiad penodol.

Mae buddsoddiad helaeth mewn ymchwil a datblygu, gyda chymorth Rhaglen Arloesi i Fusnesau Llywodraeth Cymru, yn golygu bod cynhyrchion Invertek yn llawer haws eu gosod a'u comisiynu nag eraill sydd ar gael.

Mae pencadlys 30,000 o droedfeddi sgwâr Invertek, a adeiladwyd ac a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Trallwng, hefyd yn darparu cyfleusterau o ansawdd arddangosfa ar gyfer gweithgynhyrchu ac arloesi, ynghyd â gwasanaethau i ymwelwyr o safon fyd-eang.

Mae cyllid SMARTCymru wedi helpu'n benodol i gyflogi arbenigwyr ar ymchwil a datblygu, y bydd eu gwaith yn ganolog i sicrhau y bydd Invertek Drives yn dyblu ei drosiant i £35 miliwn, ac yn cyflogi 50 yn fwy o bobl, yn y pum mlynedd nesaf.

Dywedodd un o'r cyfarwyddwyr, Charles Haspel: "Mae'n uchelgais gennyn ni erioed i fod yn fusnes byd-eang, ond heb yr arian ychwanegol a gafwyd i ategu at y buddsoddiadau preifat a wnaethpwyd, fyddai Invertek Drives ddim wedi gallu ymchwilio a datblygu ei gynhyrchion mor helaeth ag y mae wedi gwneud. Mae cymorth oddi wrth SMARTCymru a chyllid arall wedi ein galluogi i wneud y newid sylweddol hwnnw a dod yn gwmni pwysig yn y farchnad fyd-eang yn gynharach o lawer nag y byddem wedi gallu gwneud ar ein pen ein hunain, ac erbyn hyn rydyn ni'n cyfrannu £5 miliwn i'r economi leol bob blwyddyn o'r herwydd."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Crown copyright 2014